**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**County Hall, Usk with Remote Attendance**
**Dydd Llun, 19eg Gorffennaf, 2021, 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol: A. Easson, R. Edwards, P. Murphy, D. Havard, R. Clark |

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Gareth Peel | |
| Nicola Perry | Uwch Swyddog Democratiaeth |

## YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol: M.Feakins, D. Jones, S.B. Jones

1. **<u>Ethol Cadeirydd</u>**

Etholodd y Pwyllgor y Cynghorydd Sirol David Jones yn Gadeirydd.

2. **<u>Penodi Is-gadeirydd</u>**

Etholwyd y Cynghorydd Sirol David Havard fel Is-gadeirydd.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

Dim.

4. **<u>Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.</u>**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2021 fel cofnod cywir.

5. **<u>Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.</u>**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2021.

Wrth wneud hynny, nodwyd bod cyfanswm cynyddol y gronfa yn ganlyniad i ennill trwy fuddsoddiadau, ond hefyd oherwydd y flwyddyn anodd a oedd wedi gweld dysgu o bell a lleihau costau teithio.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**County Hall, Usk with Remote Attendance**
**Dydd Llun, 19eg Gorffennaf, 2021, 10.00 am**

6. **Ystyried p'un ai i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyrir yr eitem ddilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn golygu datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf (Atodir barn y Swyddog Priodol).**

Penderfynwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

7. **Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc yng nghyswllt ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer Cronfa'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn Academaidd 2020-21.**

Ystyriwyd 5 cais a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa'r Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylid gwneud dyfarniadau i 5 ymgeisydd, fel y cytunwyd, yn amodol ar dderbyn derbynebau a thystiolaeth briodol o bresenoldeb;

Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i fyfyrwyr yn y cyfarfod oedd £4250.

8. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Cytunwyd y bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn dychwelyd i ddechrau am 11am.

Mynegodd yr Is-gadeirydd ddiolch i'r Athro Hayes sydd wedi penderfynu camu i lawr o'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau a'r Swyddogion yn awyddus i fynegi geiriau caredig iddo ac yn cydnabod y doethineb yr oedd wedi'i ddarparu dros nifer o flynyddoedd.